

Cyfeirnod: IR763

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2021

Gohebiaeth â Chyngor Tref Rhydaman ar gyfer y flwyddyn ariannol 18/19

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch e-bost 15 Rhagfyr 2020 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch gohebiaeth â Chyngor Tref Rhydaman (18/19).

Rwyf wedi ystyried eich cais, "Rwy'n chwilio am gyfrifon archwiliedig Cyngor Tref Rhydaman ynghyd ag unrhyw ohebiaeth rhwng y Swyddfa Archwilio/Archwilydd Cyffredinol neu isgcontractwyr sy'n gweithredu ar eu rhan..." ar gyfer 2018-19.

Mae gennym gopi o negeseuon e-bost gan Grant Thornton i Gyngor Tref Rhydaman ynghylch y Datganiad Blynyddol ar gyfer 2018-19, ac mae hwn wedi'i atodi. Rydym wrthi'n cwblhau archwiliadau 2017-18 a 2018-19 o ganlyniad i faterion a godwyd â ni. Noder fy mod wedi golygu enwau o'r cyfathrebiadau o dan yr esemptiad yn adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan fod datgeliadau o dan y Ddeddf felly yn dod i sylw'r cyhoedd yn ehangach ac rwyf o'r farn na fyddai rhyddhau'r wybodaeth hon o fewn disgwyliad rhesymol yr unigolion dan sylw.

Mae'r adroddiad Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu – Cyngorau Tref a Chymuned 2017-18 https://www.audit.wales/sites/default/files/financial-management-town-and-community-2017-18-welsh_5.pdf yn darparu rhestr o gynghorau sydd ag archwiliadau blwyddyn flaenorol sy'n dal i fod ar agor ac a fydd yn dod i ben unwaith y bydd materion y flwyddyn flaenorol wedi'u datrys, mae Cyngor Tref Rhydaman ar y rhestr hon.

Os hoffech ofyn am adolygiad mewnol ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd

â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Tel: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath.

Mae rhagor o ganllaw ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth:

<https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth